

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN):

Adroddiad cryno ar beilot Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith mewn ysgolion cynradd yng Nghymru (2023).



Ynglŷn â'r adroddiad hwn:

Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli canlyniadau dethol o'r peilot o'r Holiadur Amgylchedd Ysgolion (SEQ) o fewn ysgolion cynradd yn 2023. Addaswyd y SEQ cynradd o'r fersiwn a ddefnyddir mewn ysgolion uwchradd. Gwahoddwyd ysgolion cynradd i gymryd rhan yn y SEQ os oeddent yn cymryd rhan yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023.

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2024
Cyllidwr: Llywodraeth Cymru

Cynnwys

1. Ynglŷn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN)	4
2. Casglu data a sampl data	5
3. Canfyddiadau allweddol	8
3.1 Polisi ac ymarfer ysgol	8
3.2 Ymglymiad dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned mewn iechyd a lles	10
3.3 Iechyd a lles	12
4. Crynodeb o ganfyddiadau	15
5. Cydnabyddiaethau	16

1. Ynglŷn y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN)

Sefydlwyd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yn 2013. Erbyn 2017, roedd yn Rhwydwaith o'r holl ysgolion uwchradd prif-fwrdd a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru, gan weithio gydag ymchwilwyr yng nghanolfan ymchwil DECIPHer ym Mhrifysgol Caerdydd (<https://decipher.uk.net/cy/home-cymraeg/>), Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru (<https://icc.gig.cymru/>), a sefydliadau eraill i gefnogi a gwella iechyd a lles pobl ifanc. Mae'r Rhwydwaith yn helpu ysgolion yng Nghymru i gydweithredu ag ymchwilwyr i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da am wella iechyd. Mae hyn yn cynnwys arolygon lefel dysgwr ac ysgol bob dwy flynedd, gan gofnodi ciplun rheolaidd o ymddygiadau iechyd a lles pobl ifanc 11 i 16 oed.

Fodd bynnag, mae ffocws ar y glasoed yn unig yn rhy hwyr i lawer o bobl ifanc, gydag ymchwil yn dangos bod gan nifer sylweddol o bobl ifanc anawsterau emosiynol arwyddocaol yn glinigol erbyn iddynt orffen yr ysgol gynradd.

Mae ehangu'r Rhwydwaith mewn ysgolion cynradd gennym yn ddiweddar yn cynnig cyfle am weithio cysylltiedig ar draws plentyndod a'r glasoed, a llwybr at ddeall a chefnogi digwyddiadau fel y pontio i ysgol uwchradd yn well. Ystyrir mai'r pontio hwn yw un o'r pum cyfnod pontio pwysicaf i bobl ifanc.

Nod y Rhwydwaith yw gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc trwy:

- Ddarparu data cadarn ar iechyd a lles i ysgolion ac i randdeiliaid cenedlaethol/rhanbarthol (<https://www.shrn.org.uk/cy/data-cenedlaethol/>)
- Gweithio gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i gyd-gynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel i iechyd a lles yn yr ysgol i Gymru.
- Cynhyrchu tystiolaeth ymchwil newydd o'r ffordd orau o wella iechyd a lles pobl ifanc yn yr ysgol.
- Helpu ysgolion, a'r rhai sy'n cefnogi ysgolion, i ddeall tystiolaeth ymchwil iechyd a sut y gellir ei defnyddio ym maes gwella iechyd (<https://www.shrn.org.uk/cy/ysgolion-defnyddion-data/>)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.shrn.org.uk/cy

2. Casglu data a sampl data

Cafodd yr holl ysgolion cynradd a gymerodd ran 2022-23 yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr (yr Arolwg) mewn Ysgolion Cynradd (n=354) eu gwahodd i gymryd rhan yn Holiadur Amgylchedd yr Ysgol (yr Holiadur).

Mae'r Holiadur wedi'i seilio'n rhannol ar fframwaith Ysgolion Hybu Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r fframwaith hwn yn pwysleisio ymagwedd ysgol gyfan at hybu iechyd a chyrhaeddiad addysgol trwy fanteisio ar botensial trefniadaethol ysgolion a sut gall ysgolion feithrin yr amodau hynny i annog deilliannau iechyd ac addysgol cadarnhaol.

Mae'r holiadur yn canolbwyntio ar feysydd fel:

- polisïau ysgolion iach;
- amgylcheddau ysgolion iach;
- amgylcheddau cymdeithasol iach;
- sgiliau iach mewn addysg;
- cysylltiadau da gyda rhieni a'r gymuned ehangach;
- mynediad at wasanaethau iechyd ysgolion.

Roedd yr holiadur ar gael ar-lein rhwng Medi a Rhagfyr 2023 a chafodd ei lenwi gan aelod o uwch dîm arwain yr ysgol neu gynrychiolydd a benodwyd gan yr ysgol. Yn gyfan gwbl, llenwodd 123 o ysgolion yr Holiadur (35% o'r ysgolion a wahoddwyd). Roedd yr ysgolion hyn wedi'u lleoli ar draws 21* o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (Tabl 1).

*Roedd y dosbarthiad yn ôl awdurdod lleol o ganlyniad yn rhannol i'r ffordd y cyflwynwyd yr Arolwg. Roedd ffocws cychwynnol ar recriwtio ysgolion o 5 awdurdod lleol a oedd yn astudiaethau achos, a gymerodd ran mewn gwaith blaenorol ar yr astudiaeth. Mae ystod yr ymatebion o wahanol awdurdodau lleol yn adlewyrchu'r ffocws cychwynnol hwn.

Tabl 1: Llenwi'r Holiadur yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Llenwi'r Holiadur	Wedi cael gwahoddiad, ond heb ei ateb	Ysgolion na wnaeth fodloni meini prawf y gwahoddiad*
Abertawe/Swansea	9	23	45
Blaenau Gwent	4	1	16
Bro Morgannwg/ Vale of Glamorgan	6	12	27
Caerdydd/Cardiff	13	17	69
Caerffili/Caerphilly	8	16	44
Casnewydd/Newport	6	11	26
Castell-nedd Port Talbot/Neath Port Talbot	2	13	39
Ceredigion	0	0	39
Conwy	3	7	37
Gwynedd	5	5	69
Merthyr Tudful/ Merthyr Tydfil	2	5	16
Pen-y-Bont ar Ogwr/ Bridgend	11	11	24
Powys	5	12	60
Rhondda Cynon Taf	16	18	61
Sir Ddinbych/ Denbighshire	3	7	34
Sir Fynwy/ Monmouthshire	8	10	12
Sir Gâr/ Carmarthenshire	1	16	77
Sir Benfro/ Pembrokeshire	4	12	38
Sir y Fflint/ Flintshire	5	13	46
Torfaen	5	7	14
Wrecsam/Wrexham	3	7	47
Ynys Môn/ Isle of Anglesey	4	8	28
Cyfanswm	123	231	868

D.S. Cymerodd un ysgol annibynnol ran yn yr Holiadur

* Dim ond ysgolion oedd wedi cymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr oedd yn gymwys i gwblhau'r SEQ.

Ar y cyfan, roedd gan yr ysgolion a lenwodd yr Holiadur gyfran ychydig yn uwch o ddysgwyr cymwys am brydau ysgol am ddim (PYDd) na chyfartaledd Cymru (ar sail data PYDd cyfartalog tair blynedd o Ionawr 2021, cyn cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb).

Tabl 2: Cymhwysedd cymedrig am brydau ysgol am ddim yr ysgolion cynradd a gymerodd ran

	Ysgolion cynradd a gymerodd ran	Pob ysgol gynradd yng Nghymru
Hawl cymedrig i brydau ysgol am ddim	22.6%	20.1%


Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o ganlyniadau dethol o'r Holiadur. Gan fod y gwaith hwn yn rhan o astudiaeth beilot ac ni wahoddwyd pob ysgol yng Nghymru i gymryd rhan, dewiswyd cwestiynau allweddol i dangos yr hyn y bydd y SEQ cynradd yn ei gynnig yn y dyfodol gyda niferoedd uwch o ysgolion yn cymryd rhan, yn hytrach na golwg gynhwysfawr o ganfyddiadau, yn hytrach na golwg gynhwysfawr o ganfyddiadau. Mae copi llawn o'r cwestiynau a holwyd ar gael ar wefan y Rhwydwaith: (<https://www.shrn.org.uk/wp-content/uploads/2024/01/WELSH-Primary-SEQ-FINAL-V1-080923.pdf>).

3. Canfyddiadau allweddol*

3.1 Polisi ac ymarfer ysgol

Ffigur 3.1.1 Blaenoriaethau'r uwch dîm rheoli

Gofynnwyd i ysgolion ddewis hyd at bedwar maes blaenoriaeth.




Sail: 122

* Ar gyfer pob graff, mae ysgolion a ddewisodd 'ddim yn gwybod' wedi cael eu heithrio o'r enwadur.

Ffigur 3.1.2 Pwysigrwydd aelodaeth y Cynllun Ysgolion Iach i waith iechyd a lles


Gofynnwyd i ysgolion ddatgan pwysigrwydd hyn o 1 (Ddim yn bwysig iawn) i 5 (Yn bwysig iawn).



Sail: 105

Ffigur 3.1.3 Defnydd ysgolion o ddata i greu ysgol iach

Gofynnwyd i ysgolion sut maen nhw'n defnyddio'r holl fathau o ddata iechyd a lles sydd ar gael iddynt, ac i ddewis cymaint ag sy'n berthnasol.




Sail: 120

3.2 Ymglymiad dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned mewn iechyd a lles

Ffigur 3.2.1 Meysydd gwneud penderfyniadau ynghylch iechyd a lles y mae dysgwyr yn cymryd rhan ynddynt


Gofynnwyd i ysgolion ddewis cynifer o feysydd ag oedd yn berthnasol.



Sail: 120

Ffigur 3.2.2 Pynciau iechyd a lles y mae grwpiau llais y dysgwr wedi gweithio arnynt yn y ddwy flynedd ddiwethaf


Gofynnwyd i ysgolion ddewis cynifer o feysydd ag oedd yn berthnasol.



Sail: 116

Ffigur 3.2.3 Meysydd gwneud penderfyniadau ynghylch gwella iechyd a lles y mae rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan ynddynt


Gofynnwyd i ysgolion ddewis cynifer o feysydd ag oedd yn berthnasol.



Sail: 99

Ffigur 3.2.4 Partneriaethau ysgolion ag unigolion a grwpiau i wella iechyd a lles dysgwyr

Gofynnwyd i ysgolion ddewis cynifer o feysydd ag oedd yn berthnasol.



Sail: 122


3.3 Iechyd a lles

Ffigur 3.3.1 Munudau cyfartalog o addysg gorfforol yn yr amserlen yr wythnos o fewn y cwricwlwm ffurfiol




Ffigur 3.3.2 Sut mae ysgolion yn hyrwyddo teithio llesol

Gofynnwyd i ysgolion ddewis cynifer o feysydd ag oedd yn berthnasol.



Ffigur 3.3.3 Sut mae ysgolion yn hyrwyddo bwyta'n iach

Gofynnwyd i ysgolion ddewis cynifer o feysydd ag oedd yn berthnasol.




Sail: 119

CLILC = Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (<https://www.wlga.cymru/healthy-eating-in-schools>)

Ffigur 3.3.4 Polisiâu ysgrifenedig ar gyfer iechyd meddwl


Gofynnwyd i ysgolion a oedd ganddynt bolisiâu ysgrifenedig a oedd yn cynnwys y pynciau canlynol.



*Mae'r niferoedd sylfaen is yn dynodi nifer fawr o ysgolion yn ateb 'ddim yn gwybod' am y polisiâu hyn

Ffigur 3.3.5 Statws cyflwyno'r Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Lles Emosiynol a Meddyliol

Gofynnwyd i ysgolion ddewis pa gam a oedd yn cyfateb agosaf i'w sefyllfa bresennol.



Sail: 118

4. Crynodeb o ganfyddiadau

Polisi ac ymarfer ysgol

Mae'r canfyddiadau'n amlygu bod ysgolion yn canolbwyntio eu hymdrechion gwella ar ystod eang o feysydd blaenoriaeth. Roedd bron i naw o bob deg (89% o ysgolion) wedi dewis iechyd meddwl a lles dysgwyr, 65% yn dewis iechyd a lles staff, a 55% o gyflawniad dysgwyr a ddewiswyd. Mae gan bron pob ysgol (87%) bolisi ysgrifenedig iechyd meddwl a lles dysgwr naill ai eisoes wedi'i gwblhau neu yn cael ei ddatblygu. Ystyrir bod aelodaeth cynllun ysgolion iach yn bwysig i fwyafrif helaeth o ysgolion, gydag 80% yn ei nodi fel pedwar neu bump (pump yn arwyddocau pwysig iawn). Mae ysgolion yn defnyddio data mewn sawl ffordd wahanol i lywio polisi ac ymarfer yr ysgol. Mae bron pob ysgol (93%) yn defnyddio data i nodi angen a gosod blaenoriaethau iechyd a lles, ac mae mwyafrif (73%) yn defnyddio data i helpu i ddatblygu eu cwricwlwm. Mae llai o ysgolion (23%) yn defnyddio data i lywio gwaith clwstwr. Gyda'r ddarpariaeth ddiweddar o (www.shrn.org.uk/cy) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, bydd yn ddiddorol archwilio'r defnydd o ddata SHRN i gefnogi gwaith clwstwr o fewn rowndiau arolygon yn y dyfodol.

Dysgu, rhiant/gofalwr a chyfranogiad cymunedol mewn iechyd a lles

Mae dysgwyr yn ymwneud â gwneud penderfyniadau iechyd a lles ym mron pob ysgol (96%). Ar gyfer bron i dri chwarter (73%), mae cyfranogiad yn cynnwys helpu i ddatblygu a chyflawni gweithredu/mentrau, ac am dros hanner mae'n cynnwys dysgwyr mewn cynllunio gweithredu (57%) a nodi meysydd blaenoriaeth (55%). Y pynciau iechyd a lles mwyaf cyffredin y mae grwpiau llais dysgwyr wedi cymryd rhan ynddynt dros y ddwy flynedd ddiwethaf yw gweithgarwch corfforol (72%), bwyd a maeth (66%), iechyd meddwl a lles (66%) a bwlio (64%).

Mae rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau gwella iechyd a lles yn ychydig dros hanner o ysgolion (59%). Mae rhieni'n ymwneud ag addysg iechyd (26%), gan nodi meysydd blaenoriaeth (23%) ac iechyd teulu a chymuned (23%). Fodd bynnag, mae lleiafrif mawr o ysgolion (41%) o hyd lle nad yw rhieni a gofalwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau.

Mae ysgolion yn gweithio gyda llawer o wahanol bartneriaid i wella iechyd a lles dysgwyr, ac ar gyfartaledd, dewisodd pob ysgol bron saith partner gwahanol i'r opsiynau a ddarparwyd. Mae bron pob ysgol yn gweithio gyda'r heddlu neu SCCH (94%), mae tri chwarter yn gweithio gyda swyddogion datblygu chwaraeon (76%) a/neu weithwyr iechyd proffesiynol y tu allan i'w tîm ysgol iach lleol (76%).

Iechyd a lles

Mae ysgolion yn amserlennu cyfartaledd o tua 1.5 awr y flwyddyn o addysg gorfforol yr wythnos. Mae teithio llesol yn cael ei gefnogi mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, gan gynnwys hyfforddiant hyfedredd beicio (76%) a hyrwyddo cerdded (70%). Mae dros hanner o ysgolion (56%) yn darparu storfa ddiogel dan do ar gyfer beiciau a sgwteri, ac mae cyfran debyg (57%) yn gweithio gyda'r heddlu/SCCH i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol a thrafnidiaeth.

O ran bwyta iechyd, mae mwyafrif helaeth o ysgolion (71%) yn hyrwyddo bwyta iechyd trwy gyfyngu ar y defnydd o ffwydydd ar gyfer dathliadau neu wobrau, ac mae bron i hanner (49%) yn gweithio i nodi'n glir opsiynau iachach yn ffreutur yr ysgol. Fodd bynnag, nododd un o bob deg ysgol nad ydyn nhw'n hyrwyddo bwyta'n iach yn unrhyw un o'r ffyrdd a awgrymir.

Yn olaf, mae statws cyflwyno'r Fframwaith ar Sefydlu Dull Ysgol Gyfan ar Gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol (<https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol>) yn amrywio rhwng ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau cyflwyno Dull Ysgol Gyfan, yn amrywio o chwarter (26%) sy'n dal i fod yn y cyfnod cwmpasu, i gynllunio gweithredu o 19%, 20% yn gweithredu, 8% sydd eisoes yn gwerthuso eu cynnydd, ac 11% sydd yn y cam gwella parhaus.

5. Cydnabyddiaethau

Diolch i'r holl ysgolion cynradd a gymerodd ran ym mhrosilot yr arolwg SEQ ac i Lywodraeth Cymru am ariannu'r astudiaeth hon ar ymarferoldeb ehangu SHRN i ysgolion cynradd.

Contact / Cyswllt

School Health Research Network (SHRN)
Y Rhydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN)
DECIPHer, Cardiff University / Prifysol Caerdydd
Spark / Sbarc, Maindy Road / Heol Maendy, Cathays
Cardiff / Caerdydd, CF24 4HQ

Email / E-bost: primarySHRN@cardiff.ac.uk

Website / Gwefan: www.shrn.org.uk

 @SHRNWales